

Hysbysiad Preifatrwydd Generig

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam gyfrifoldeb o dan y ddeddfwriaeth diogelu data i roi gwybodaeth i unigolion ynghylch sut rydym yn prosesu eu gwybodaeth bersonol. Mae yna nifer o ffyrdd i wneud hyn, un ffordd yw cyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu eich data personol yn deg ac yn gyfreithlon, mae gofyn inni roi gwybod ichi:

- Pam ein bod yn casglu eich data
- Sut y caiff ei ddefnyddio
- Gyda phwy y bydd yn cael ei rannu.
- Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn hefyd yn egluro pa hawliau sydd gennych i reoli sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth a sut i roi gwybod inni ynghylch eich dymuniadau. Bydd y Brifysgol yn gwneud yr Hysbyseb Preifatrwydd ar gael drwy'r wefan Llywodraethu Gwybodaeth:

<https://glyndwr.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/polisiau/a> pryd byddwn yn gofyn am ddata personol.

Mae nifer o Hysbysebion Preifatrwydd ar gael er mwyn darparu ar gyfer grwpiau gwahanol sydd yn rhan o'r Brifysgol, neu yn rhyngweithio â'r Brifysgol. Rydych wedi cael eich adnabod fel unigolyn sydd wedi rhannu data personol gyda'r Brifysgol.

Efallai y byddwn hefyd yn casglu ac yn cadw manylion cerdyn debyd/credyd banc, fodd bynnag, noder bod y Brifysgol yn cydymffurfio'n llwyr â PCI-DSS.

Rheolwr Data

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw'r Rheolwr Data. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Brifysgol yn defnyddio eich data personol, ewch i wefannau Llywodraethu Gwybodaeth y Brifysgol neu cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Diogelu Data
Ffôn: + 44 1978 293995
E-bost: dpo@glyndwr.ac.uk

Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am gynghori'r Brifysgol ar ei gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a monitro'r perfformiad yn erbyn y ddeddfwriaeth. Os oes gennych chi bryderon ynghylch y ffordd mae'r Brifysgol yn prosesu eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data fel y nodir uchod.

Tudalennau Gwe Llywodraethu Gwybodaeth

Mae tudalennau gwe Llywodraethu Gwybodaeth y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ichi ynghylch Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, ein polisiau sy'n berthnasol i ddiogelu data, sut gallwch chi adrodd am reolau'n cael eu torri a pha hyfforddiant rydym wedi ei roi i'n timau.

Gwybodaeth Bersonol:

Nid oes rhaid ichi greu cyfrif neu roi unrhyw wybodaeth bersonol inni er mwyn cael mynediad at wefannau'r Brifysgol. Fodd bynnag, os ydych chi'n dymuno defnyddio rhai o'n gwasanaethau, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am rhai manylion personol, er enghraifft:

- I gofrestru ar gyfer dyddiau/nosweithiau agored, teithiau campws
- I ofyn am gyngor a chefnogaeth ar y gwasanaethau addysg uwch rydym yn eu cynnig
- I archebu cyhoeddiad fel prospectws wedi ei argraffu;
- I danysgrifio i gyfathrebiadau marchnata fel cylchlythyrau ar-lein (Campus Talk).
- I ymuno â Chanolfan Chwaraeon y Brifysgol
- I wneud cais i ymgysylltu'n ffurfiol fel un o academyddion gwadd cynyddol y Brifysgol
- I ymgysylltu â rhaglen Darlith Gyhoeddus y Brifysgol fel siaradwr neu fynychwr
- I gymryd rhan yn rhaglen digwyddiadau a chynadleddau neu Seremonïau Graddio'r Brifysgol

Gall y data personol rydym yn ei gadw a'i brosesu gynnwys:

- Gwybodaeth fywgraffiadol yn cynnwys eich enw, teitl, dyddiad geni, oed a rhyw
- Eich manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- Gwybodaeth ynghylch eich amser yn y Brifysgol;
- Eich gweithgareddau proffesiynol;
- Diddordebau a hoffterau presennol;
- Cofnodion o gyfathrebu a anfonwyd atoch chi gan y Brifysgol neu a dderbyniwyd gennych chi;
- Presenoldeb yn nigwyddiadau'r Brifysgol
- Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol ac os yn berthnasol, eich enw, manylion cyswllt, manylion gwisg broffesiynol at ddibenion archebu gŵn.
- Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol drwy ffrwd byw ar-lein o'r seremonïau.
- Fel un o Gymrodorion Anrhydeddus y Brifysgol, bydd eich bywgraffiad a llun ohonoch yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Raddio.
- Gwahoddiadau gan Swyddfa'r Is-ganghellor i ymgysylltu â gweithgareddau fel un o randdeiliaid y Brifysgol.

YMWELD Â'R CAMPWS - MONITRO, OLRHAIN A DIOGELU

Er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'n cyfrifoldebau cyfreithiol o dan lechyd y Cyhoedd, mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol gasglu manylion personol amdanoch fel ymwelydd i'n campws. Rydych yn darparu'r wybodaeth hon am reswm penodol a byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu eich buddiannau allweddol (Erthygl 6(1)(d)) ac er mwyn perfformio tasg gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i'r Brifysgol gydymffurfio â'n cyfrifoldebau cyfreithiol o ran iechyd y cyhoedd (Erthygl 6(1)(e)). Mae casglu'r wybodaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau eich diogelwch a'ch llesiant wrth ymweld â'r campws, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i reoli a'n galluogi i'ch cadw'n ddiogel yn effeithiol. Ni chedwir yr wybodaeth ar y ffurflen am fwy na thri mis a bydd yn cael ei chadw'n ddiogel a'i dinistrio yn defnyddio ein proses gwastraff cyfrinachol. Lle bo angen, rhannu eich manylion cyswllt a gwybodaeth categori arbennig (iechyd) â sefydliadau i reoli a lliniaru lledaeniad ac effaith risgiau'r achosion presennol o'r coronafeirws (COVID-19) i iechyd y cyhoedd (e.e. Monitro, Olrhain a Diogelu). Erthygl 9 (2) (c) mae prosesu "categoriâu arbennig" o ddata yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu berson naturiol arall - drwy rannu manylion cyswllt person (au) sydd â symptomau iechyd gwael (e.e. symptomau Covid-19) y gall gwrthrych y data neu berson naturiol arall fod wedi dod i gysylltiad â nhw ar safle'r Brifysgol ac a all ddioddef cyflyrau iechyd sylfaenol. Erthygl 9(2)(g) - budd sylweddol i'r cyhoedd a DPA 2018, Atodlen 1, Rhan

2, paragraff 6 (at ddibenion Statudol a Llywodraeth) Erthygl (9) (2) (i) - dibenion iechyd y cyhoedd a DPA 2018 - Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3 Iechyd y Cyhoedd.

Bydd y rhan helaeth o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw yn cael ei chasglu drwy ein ffurflenni ar-lein neu ar gais drwy gyswllt e-bost. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw am y rhesymau a roddid pan gasglwyd y wybodaeth bersonol yn unig. Efallai y bydd angen rhannu eich gwybodaeth bersonol yn fewnol gydag adrannau, ar wahân i'r adran y rhoddwyd y wybodaeth bersonol iddo'n wreiddiol, at ddibenion sicrhau bod yr anghenion y rhoddwyd y wybodaeth ar eu cyfer yn cael eu bodloni.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol rydych yn ei chyflwyno yn cael ei chadw'n unol â Deddf Diogelu Data 2018. Nid ydym yn gwerthu nac yn trosglwyddo data personol i unrhyw drydydd parti, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd inni wneud, neu fod y gyfraith yn ei ganiatáu.

Adolygwyd: Awst 2020	Awdur: Leonna Messiter	Ychwanegiadau: Yn ymwneud â chasglu data personol a lle bo angen, rhannu data personol â thrydydd parti (yn cynnwys categori arbennig - yn ymwneud ag iechyd) at ddibenion Monitro, Olrhain a Diogelu.
Ebrill 2020	Leonna Messiter	Dim.